<u>**YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU**</u>

**Adroddiad yr ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023**

Mae’r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a datganiadau ariannol yr elusen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Mae’r datganiadau ariannol wedi’u paratoi yn unol â’r polisïau cyfrifo a nodir yn nodyn 1 y cyfrifon ac yn cydymffurfio â gweithred ymddiriedolaeth yr elusen, Deddf Elusennau 2022 a’r Datganiad o Arferion a Argymhellir: Cyfrifon ac Adroddiadau gan y Comisiwn Elusennau a gyhoeddwyd yn 2019.

**Gwybodaeth Gyfeirio a Gweinyddol**

<u>Rhif elusen</u>: 524477

<u>Prif Swyddfa</u>: Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia, Caerdydd. CF11 9SW

<u>Archwilwyr</u>: Archwilydd Cyffredinol Cymru, Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BZ.

<u>Ymddiriedolwyr a Swyddog Cyfrifo</u>

Mae gan y sefydliad unig Ymddiriedolwr, sef Cyngor Chwaraeon Cymru. Ni chawsant unrhyw dâl am eu gwasanaeth yn ystod y flwyddyn (2021/22, £dim).

Mae'r elusen yn ystyried mai'r Ymddiriedolwr, Cyngor Chwaraeon Cymru, yw ei phrif barti a rhiant sy'n rheoli. Rhoddir y cyfeiriad ar gyfer cael copïau o ddatganiadau ariannol cyfunol y prif riant uchod. Amcanion Cyngor Chwaraeon Cymru yw ‘meithrin gwybodaeth ac ymarfer chwaraeon a hamdden gorfforol ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru a darparu cyfleusterau ar gyfer hynny’.

**Strwythurau, Llywodraethu a Rheolaeth**

<u>Dogfen Lywodraethu</u>

Cyfansoddwyd Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru (yr Ymddiriedolaeth) o dan Weithred Ymddiriedolaeth ar 16 Mai 1972 gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

<u>Penodi Ymddiriedolwyr</u>

Mae'r Weithred Ymddiriedolaeth yn nodi “bydd yr Ymddiriedolwyr yn golygu Cyngor Chwaraeon Cymru”.

<u>Sefydlu a Hyfforddi Ymddiriedolwyr</u>

Sefydlir a chyflwynir hyfforddiant i ymddiriedolwyr drwy brosesau sefydlu a hyfforddi Cyngor Chwaraeon Cymru.

<u>Trefniadaeth</u>

Mae Prif Weithredwr Cyngor Chwaraeon Cymru hefyd yn gweithredu fel Swyddog Cyfrifo'r Ymddiriedolaeth, ac nid yw'n derbyn unrhyw dâl gan yr Ymddiriedolaeth am hynny. Mae holl swyddogaethau gweinyddol yr Ymddiriedolaeth, fel mynychu cyfarfodydd, paratoi papurau a chyfrifon terfynol, yn cael eu cyflawni gan gyflogeion Cyngor Chwaraeon Cymru heb unrhyw gost i'r Ymddiriedolaeth.

Mae manylion cyfansoddiad Bwrdd Cyngor Chwaraeon Cymru a'i Uwch Dîm Rheoli Gweithredol wedi'u nodi yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer 2022/23. Gellir cael copïau o wefan Cyngor Chwaraeon Cymru *www.chwaraeon.cymru* neu yn ei swyddfa gofrestredig:

Gerddi Sophia
Caerdydd
Cymru
CF11 9SW

Partïon Cysylltiedig

Cyngor Chwaraeon Cymru yw Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Mae'r unig drafodion parti cysylltiedig a gofnodir yn y cyfrifon hyn yn ymwneud â pherthynas yr Ymddiriedolaeth â Chyngor Chwaraeon Cymru. Manylir ar y trafodion hyn yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Datganiad Llif Arian a Nodyn 7.

**Rheoli Risg**

Mae'r broses rheoli risg a'r Datganiad Llywodraethu llawn i'w gweld yng nghyfrifon cyfunol Chwaraeon Cymru.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, y prif ffactorau sy'n rhan o'r broses rheoli risg yw:

- Pedwar cyfarfod y flwyddyn o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg;
- Rhaglen archwilio mewnol, y cytunwyd arni gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac a gyflwynir ac yr adroddir arni gan archwilwyr mewnol penodedig;
- Cadw Cofrestr Risg sy'n cael ei hadolygu gan archwiliad mewnol ac adroddir ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ym mhob Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg;
- Prosesau blynyddol i sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a mesurau rheoli'n cael eu hadolygu'n rheolaidd;
- Pedwar cyfarfod y flwyddyn o'r Grŵp Rheoli Risg a Sicrwydd.

**Amcanion a Gweithgareddau er Budd y Cyhoedd**

Dyma amcanion elusennol yr Ymddiriedolaeth:

- gwarchod a diogelu iechyd corfforol a meddyliol y gymuned drwy hamdden gorfforol (gan gynnwys chwaraeon) a'r addysg mewn perthynas â hynny; a

- darparu cyfleusterau ar gyfer hamdden gorfforol (gan gynnwys chwaraeon) a fydd ar gael i aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyfeirio at y canllawiau sydd wedi'u cynnwys yng Nghanllaw'r Comisiwn Elusennau ar Fudd Cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion yr Ymddiriedolaeth ac wrth gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol.

Mae gan Gyngor Chwaraeon Cymru (fel Ymddiriedolwr yr Ymddiriedolaeth) ddau gyfleuster chwaraeon cenedlaethol (Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru a Chanolfan Awyr Agored Plas Menai) ar ymddiriedolaeth i'r Ymddiriedolaeth. Mae'r cyfleusterau hyn yn cael eu gweithredu a'u rheoli ar gyfer yr Ymddiriedolaeth gan Gyngor Chwaraeon Cymru drwy Gytundeb Rheoli Cyfleusterau. Ers 1af Chwefror 2023, mae Canolfan Awyr Agored Plas Menai yn cael ei gweithredu a'i rheoli ar ran yr Ymddiriedolaeth gan Parkwood a Legacy Leisure mewn partneriaeth â Chyngor Chwaraeon Cymru. Felly mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei hamcanion elusennol drwy'r cytundebau hyn gyda Chyngor Chwaraeon Cymru.

**Adolygiad Ariannol**

Roedd yr adnoddau net a ddaeth i mewn i'r Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn yn £1,215,000 (2021/22 adnodd i mewn o £1,506,000). Yn gyffredinol, bu cynnydd net o £1,984,000, (2021/22 gostyngiad o £761,000) yn bennaf oherwydd ailbrisiad o'r ddwy ganolfan genedlaethol. Cynhaliwyd y prisiad proffesiynol ar 31 Mawrth 2023.

**Polisi Arian Wrth Gefn**

Mae arian cyhoeddus anghyfyngedig yr Ymddiriedolaeth i'w wario yn ôl disgresiwn yr Ymddiriedolwyr er mwyn hyrwyddo'r amcanion elusennol a gynhwysir yn y Weithred Ymddiriedolaeth.

**Partner Gweithredu Plas Menai**

Aeth Chwaraeon Cymru ati i ddechrau proses gaffael i ganfod partner gweithredu ar gyfer Plas Menai. Daeth y broses i ben yn 2022/23 a dechreuodd y bartneriaeth gyda Parkwood a Legacy Leisure ar 1af Chwefror 2023. Mae Parkwood a Legacy Leisure yn ysgwyddo’r cyfrifoldeb am weithredu’r safle o ddydd i ddydd, ond bydd perchnogaeth Plas Menai (gan gynnwys tir ac adeiladau) yn parhau i fod yn nwylo'r Ymddiriedolaeth.

**Datganiad Ar Ddatgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol**

1. Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifo, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw’r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, ac

2. Mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cymryd yr holl gamau y dylid bod wedi'u cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## CYFRIFOLDEBAU’R YMDDIRIEDOLWYR MEWN PERTHYNAS Â'R DATGANIADAU ARIANNOL

O dan ei Weithred Ymddiriedolaeth, dyddiedig 16 Mai 1972, mae'n ofynnol i Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar sail croniadau. Mae’n rhaid i’r cyfrifon roi darlun cywir a theg o sefyllfa’r Ymddiriedolaeth ar ddiwedd y flwyddyn ac o’r adnoddau a ddaeth i mewn a’r adnoddau a wariwyd, a’r llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi’r cyfrifon mae’n ofynnol i’r Ymddiriedolaeth wneud y canlynol:

- cadw at y Datganiad o Arferion a Argymhellir a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifo addas yn gyson;

- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;

- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys, a datgelu ac egluro unrhyw wyro sylfaenol yn y datganiadau ariannol;

- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd yr endid yn parhau i weithredu;

- sicrhau bod yr adroddiad a’r cyfrifon blynyddol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Prif Swyddog Cyfrifo Llywodraeth Cymru wedi penodi’r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifo ar gyfer Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Mae fy nghyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys fy nghyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus, y mae’r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdanynt, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau’r Ymddiriedolaeth, wedi’u nodi ym Memorandwm Swyddog Cyfrifo Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

**SWYDDOG CYFRIFO: B DAVIES**
(AR RAN YR UNIG YMDDIRIEDOLWR)

**22 Medi 2023**

**Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru**

## Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Elusennau 2011 a Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifo arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw’r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo’r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy’n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i mae’r datganiadau ariannol:

- yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2023 ac o'i hadnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi’u paratoi yn unol â Deddf Elusennau 2011.

## Sail y farn

Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â’r gyfraith berthnasol a’r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Archwilio (ISAs) yn y DU a Nodyn Ymarfer 10 ‘Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau’r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig’. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau’r Archwilydd am archwilio’r datganiadau ariannol yn fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar yr elusen yn unol â’r gofynion moesegol sy’n berthnasol i fy archwiliad ar y datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â’r gofynion hyn. Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi’i sicrhau’n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau perthnasol i fusnes gweithredol

Wrth archwilio’r datganiadau ariannol, deuthum i’r casgliad bod y defnydd o’r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifo wrth baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylfaenol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu’r corff i barhau i fabwysiadu sail fel busnes gweithredol ar gyfer cyfrifol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth Arall

Mae’r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw’n cynnwys y datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilio i ar y rheiny. Yr ymddiriedolwyr sy’n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol. Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac, ac eithrio i’r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad sicrwydd mewn perthynas â hi. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw’r wybodaeth arall yn sylfaenol anghyson â’r datganiadau ariannol neu’r wybodaeth a gefais wrth gynnal yr archwiliad neu’n ymddangos wedi’i chamddatgan fel arall. Os byddaf yn canfod anghysondebau sylfaenol o'r fath neu gamddatganiadau sylfaenol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad sylfaenol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i’r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith rwyf

wedi'i wneud, bod unrhyw gamddatganiadau sylfaenol yn gysylltiedig â'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am hynny.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno yn y cyswllt hwn.

**Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno yng nghyswllt y materion canlynol y mae Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 yn gofyn i mi adrodd arnynt i chi, os yw'r canlynol yn briodol yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifo digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau na fu fy nhîm yn ymweld â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo; neu
- bod yr wybodaeth a roddir yn y datganiadau ariannol yn anghyson mewn unrhyw ffordd sylfaenol ag adroddiad yr ymddiriedolwyr.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolw[y]r am y datganiadau ariannol**

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifo digonol;
- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg;
- mesurau rheoli mewnol fel y pennir yn angenrheidiol gan yr ymddiriedolwyr er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau sylfaenol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel sy'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifo busnes gweithredol oni bai fod yr ymddiriedolwyr yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr elusen yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd am yr archwiliad ar y datganiadau ariannol**

Rwyf wedi cael fy mhenodi fel archwilydd o dan adran 144 Deddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 y Ddeddf honno.

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o unrhyw gamddatganiad sylfaenol, boed yn cael ei achosi gan dwyll neu gamgymeriad, a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad sylfaenol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad a chânt eu hystyried yn sylfaenol os gallant, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o fethu cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau sylfaenol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Ymchwilio i reolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu sy'n ymwneud â:

  – nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;

– canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig; ac

– y mesurau rheoli mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl;
- Sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod yr elusen yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r elusen yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.
- Sicrhau dealltwriaeth o berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi'r rheolwyr am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu; a
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru mesurau rheoli, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifo'n arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Hefyd, cyfathrebais am ddeddfau a rheoliadau perthnasol a risgiau twyll posib i holl aelodau'r tîm archwilio a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd mesurau rheoli Cyngor Chwaraeon Cymru, a natur, amseriad a graddfa'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar i ba raddau mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

**Cyfrifoldebau eraill yr Archwilydd**

Rwyf yn cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
28 Medi 2023

1 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Chwaraeon Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

## YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU

## DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL

## AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2023

| | Nodiadau | 2022/2023 £'000 Arian Cyhoeddus Anghyfyngedig | 2022/2023 £'000 Arian Cyhoeddus Anghyfyngedig |
|---|---|---|---|
| **INCWM A GWADDOL O** | | | |
| Rhoddion ac Ewyllysiau: | | | |
| Grant a dderbyniwyd gan Gyngor Chwaraeon Cymru | 2 | 1,679 | 1,918 |
| Incwm Arall | 6 | - | - |
| **Cyfanswm** | | 1,679 | 1,918 |
| **GWARIANT AR** | | | |
| Dibrisiant | 3 | 460 | 409 |
| Gweithgareddau Elusennol: | | | |
| Ffi Archwilio | | 4 | 3 |
| Arall | 6 | - | - |
| **Cyfanswm** | | 464 | 412 |
| **ADNODDAU NET SY'N DOD I MEWN** | | 1,215 | 1,506 |
| Enillion / (Colled) ar ailbrisio asedau sefydlog diriaethol | 3 | 769 | (2,267) |
| **CYNNYDD / (GOSTYNGIAD) NET MEWN CYLLID AR GYFER Y FLWYDDYN** | | 1,984 | (761) |
| Cyfanswm yr arian a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill | 4 | 17,731 | 18,492 |
| Cyfanswm yr arian a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth | 4 | 19,715 | 17,731 |

Mae'r holl weithgareddau yn parhau
Mae'r holl enillion a cholledion wedi'u cydnabod

Mae’r nodiadau ar dudalennau 11 i 15 yn rhan o’r cyfrifon hyn

## YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU

## MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2023

| | Nodiadau | 31 Mawrth 2023 £'000 Cyhoeddus Anghyfyngedi | 31 Mawrth 2022 £'000 Cyhoeddus Anghyfyngedi |
|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol | 3 | 19,711 | 17,727 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 4 | 4 |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | 4 | 4 |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI ATEBOLRWYDD CYFREDOL** | | 19,715 | 17,731 |
| **CYLLIDWYD GAN:** | | | |
| Cronfa Ailbrisio Anghyfyngedig | 4 | 3,410 | 3,101 |
| Cronfa Gyffredinol Anghyfyngedig | 4 | 16,305 | 14,630 |
| Cyfanswm yr arian anghyfyngedig | | 19,715 | 17,731 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan yr Unig Ymddiriedolwr ar 22 Medi 2023 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan;

**SWYDDOG CYFRIFO: B DAVIES**
**22 Medi 2023**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 11 i 15 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU

## DATGANIAD LLIF ARIAN AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2023

Ni chynhyrchwyd datganiad llif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 oherwydd ni chynhyrchodd yr Ymddiriedolaeth unrhyw drafodion arian parod yn ystod y flwyddyn.

Roedd yr holl gofnodion a ddangosir ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol naill ai'n dybiannol, heb eu gwireddu neu wedi cael eu trafod drwy gyfrif banc Cyngor Chwaraeon Cymru.

| | 2022/2023<br>£'000 | 2021/2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cynnydd mewn arian parod yn ystod y cyfnod | - | - |
| Cyllid net ar 1 Ebrill | 4 | 4 |
| Cyllid net ar 31 Mawrth | 4 | 4 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 11 i 15 yn rhan o'r cyfrifon hyn

**YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU**
**NODIADAU AR Y CYFRIFON**
**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2023**

## 1. DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFO

### 1.1 Sail y cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol, o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i gynnwys ailbrisio rhai asedau sefydlog. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion y Safonau Cyfrifo a gyhoeddwyd ac a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo i'r graddau y mae'r gofynion hyn yn briodol i'r Ymddiriedolaeth, a hefyd y Datganiad o Arferion a Argymhellir (SORP) a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2019 (FRS 102) a Bwletin 2 Wedi'i Ddiweddaru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019.

Rheolir y canolfannau cenedlaethol ar ran yr Ymddiriedolaeth gan Gyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, a Parkwood a Legacy Leisure ar gyfer Canolfan Awyr Agored Plas Menai. Mae'r holl drafodion ariannol sy'n ymwneud ag incwm a gwariant y canolfannau cenedlaethol (Plas Menai hyd at 31ain Ionawr 2023) yn cael eu dwyn i gyfrif gan Gyngor Chwaraeon Cymru, gan gynnwys symiau perthnasol ar gyfer dyledwyr a chredydwyr. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn paratoi cyfrif cyfunol ar wahân sy'n dwyn ynghyd y balansau sy'n ymwneud â'r Ymddiriedolaeth a'i materion ariannol ei hun.

### 1.2 Cyllid

Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn grant tybiannol gan Gyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf ar asedau sefydlog diriaethol ac i gwrdd â chostau'r gwasanaeth archwilio allanol. Credydir y grant hwn i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Mae'r elw o waredu'r holl asedau sefydlog diriaethol yn cael ei ildio i Gyngor Chwaraeon Cymru.

### 1.3 Adnoddau yn Dod i Mewn ac Adnoddau a Wariwyd

Nid yw'r Ymddiriedolaeth, fel endid anweithredol, yn derbyn unrhyw incwm ar wahân i'r grant anariannol gan Gyngor Chwaraeon Cymru, enillion ar waredu asedau sefydlog ac unrhyw incwm buddsoddi a gaiff. Yn yr un modd, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gwneud unrhyw wariant ac eithrio i roi cyfrif am ddibrisiant ar ei hasedau a'r ffi archwilio allanol.

### 1.4 Asedau sefydlog diriaethol

Mae Plas Menai yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth ac mae'r tir rhydd-ddaliadaeth wedi'i gynnwys ar y fantolen ar werth y farchnad agored. Mae Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru ar brydles ac ystyrir bod y tir yn cael ei ddal o dan y brydles weithredu ac felly nid yw wedi'i gynnwys ar fantolen yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r ddau adeilad wedi'u cynnwys ar y fantolen ar gost adnewyddu wedi'i dibrisio i adlewyrchu natur arbenigol yr adeiladau. Ceir prisiadau proffesiynol bob blwyddyn.

Cynhwysir offer ar y fantolen ar gost hanesyddol llai darpariaeth ar gyfer dibrisiant. Ym marn yr Ymddiriedolwyr, nid oes gwahaniaeth sylfaenol rhwng gwerth llyfr net cost hanesyddol a chyfredol yr asedau hyn.

Mae gwerth cario'r asedau (ac eithrio tir ac adeiladau) yn cael ei adolygu ar bob dyddiad adrodd i benderfynu a oes unrhyw arwydd o nam. Os oes arwydd o'r fath yn bodoli, amcangyfrifir swm adferadwy'r asedau. Swm adferadwy ased yw'r mwyaf o'i bris gwerthu net a'i werth wrth ei ddefnyddio.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth drothwy cyfalafu o £5,000.

1.5 **Dibrisiant**

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth ar bob ased sefydlog diriaethol gan ystyried amcangyfrif o’u hoes ddefnyddiol a’r gwerthoedd gweddillol a ragdybir. Mae oes yr ased a ddefnyddir at y pwrpas hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Eiddo rhydd-ddaliadaeth | 35 mlynedd |
| Eiddo prydles hir | 35 i 50 mlynedd |
| Offer - cyfrifiaduron | 3 blynedd |
| Arall | 3 i 10 mlynedd |

Polisi’r Ymddiriedolaeth yw dibrisio asedau o’r mis ar ôl eu caffael.

1.6 **Trethiant**

Fel elusen gofrestredig, mae gan Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru hawl i’r eithriadau rhag trethiant mewn perthynas ag incwm ac enillion cyfalaf a dderbynnir yn Adrannau 478 – 489 Deddf Treth Gorfforaeth 2010 ac adran 256 Deddf Trethu Enillion Trethadwy 1992 i’r graddau y mae'r rhain yn cael eu cymhwyso at ei dibenion amcanion elusennol yn unig. Nid oes unrhyw daliadau treth wedi codi yn yr elusen.

1.7 **Costau Gweinyddu**

Telir holl gostau gweinyddol yr Ymddiriedolaeth yn uniongyrchol gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

## 2. GRANT A DDERBYNIWYD GAN GYNGOR CHWARAEON CYMRU

Derbyniwyd grant o £1,679,000 (2021/22 £1,918,000) gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac fe’i defnyddiwyd i’r dibenion a ganlyn:

| | 2022/2023 | 2021/2022 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Prynu asedau cyfalaf | 1,675 | 1,915 |
| Ffi archwilio | 4 | 3 |
| | 1,679 | 1,918 |

Nid oes unrhyw arian parod yn cael ei dalu i'r Ymddiriedolaeth nac yn cael ei dderbyn ganddi mewn perthynas â'r grant uchod. Yn hytrach, mae prynu asedau a thalu'r ffi archwilio'n cael eu trafod drwy gyfrif banc Cyngor Chwaraeon Cymru, ac mae ffigur tybiannol sy'n hafal i'r gwariant hwn yn cael ei gofnodi yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth.

## 3. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

| | Adeiladau a Thir Rhydd-ddaliadaeth Plas Menai | Adeiladau Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru | Offer | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2022 | 6,162 | 11,565 | 441 | 18,168 |
| Ychwanegiadau | 1,035 | 640 | - | 1,675 |
| Gwaredu | - | - | (6) | (6) |
| Ailbrisio | (59) | 368 | - | 309 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 7,138 | 12,573 | 435 | 20,146 |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2022 | - | - | (441) | (441) |
| Ffi ar gyfer y flwyddyn | (199) | (261) | - | (460) |
| Gwaredu | - | - | 6 | 6 |
| Ailbrisio | 199 | 261 | - | 460 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | - | - | (435) | (435) |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2023 | 7,138 | 12,573 | - | 19,711 |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2022 | 6,162 | 11,565 | - | 17,727 |

Cafodd tir ac adeiladau’r Ymddiriedolaeth eu prisio ar 31 Mawrth 2023 fel £19,711,000 gan Feistri Cooke & Arkwright, Syrfewyr Siartredig. Cynhyrchwyd y prisiad yn unol â Safonau Arfarnu a Phrisio RICS, 6ed Argraffiad. Cafodd yr adeiladau eu prisio gan ddefnyddio'r dull cost newid wedi’i ddibrisio oherwydd eu natur arbenigol.

## 4. SYMUD CYLLID

| | Cronfa Ailbrisio Anghyfyngedig Wrth Gefn £'000 | Cronfa Gyffredinol Anghyfyngedig £'000 | Cyfanswm 2022/2023 £'000 | Cyfanswm 2021/2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyllid ar 1 Ebrill | 3,101 | 14,630 | 17,731 | 18,492 |
| Cyfanswm yr adnoddau yn dod i mewn | - | 1,679 | 1,679 | 1,918 |
| Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd | - | (464) | (464) | (412) |
| Ailbrisio asedau sefydlog diriaethol | 769 | - | 769 | (2,267) |
| Trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol | (460) | 460 | - | - |
| Cronfa ar 31 Mawrth | 3,410 | 16,305 | 19,715 | 17,731 |

Mae'r gronfa ailbrisio anghyfyngedig wedi deillio o ailbrisio adeiladau a thir Rhydd-ddaliadaeth ym Mhlas Menai a Chanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru.

Mae'r gronfa gyffredinol anghyfyngedig yn cynrychioli'r arian sydd ar gael i'r holl weithgareddau eraill y mae Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru yn ymgymryd â hwy fel y dangosir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

## 5. YMRWYMIADAU CYFALAF

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Contractiwyd ond heb dalu | 9 | 635 |

Ymrwymir i'r ymrwymiadau cyfalaf hyn gan Gyngor Chwaraeon Cymru ar ran yr Ymddiriedolaeth a bydd Cyngor Chwaraeon Cymru yn eu talu.

## 6. GWAREDU ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

| Arian Cyhoeddus Anghyfyngedig | 2022/2023<br>£'000 | 2022/2023<br>£'000 | 2021/2022<br>£'000 | 2021/2022<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Elw o werthu | | - | | - |
| Gwerth llyfr crynswth | 6 | | 103 | |
| Dibrisiant cronnol | (6) | | (103) | |
| Gwerth llyfr net | | - | | - |
| Enillion ar waredu | | - | | - |

## 7. TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Nid oes unrhyw drafodion partïon cysylltiedig ychwanegol y mae angen eu datgelu ac eithrio'r grant a dderbyniwyd gan Gyngor Chwaraeon Cymru, fel y dangosir yn Nodyn 2.

## 8. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y FANTOLEN

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifo ar yr un dyddiad ag y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.